

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn VIA ZOOM, Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr 2020 am 9.30 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts (Cadeirydd) a/ac Peter Scott

Y Cynghorydd Emrys Wynne yn bresennol fel Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig.

Arsylwyr – Cynghorwyr Graham Timms, Meirick Lloyd Davies, Joan Butterfield a Tony Thomas

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (HB-P), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynnydd Craffu (RE), Hwylusydd Zoom (SJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland, Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray a/ac David Williams

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol neu â rhagfarn ei ddatgan yn yr eitem fusnes dan drafodaeth.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion bryd wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

#### **4 OSGOI A LLEIHOU PLASTIG YNG NGHYNGOR SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne, Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Defnyddio Plastig, adroddiad ar Osgoi a Lleihau Plastig yng Nghyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cymeradwyodd y Cyngor Llawn, ddiwedd Mis Ionawr 2020, yr argymhellion a gynhwyswyd yng nghynllun gweithredu cychwynnol y Grŵp Tasg a Gorffen i leihau'r defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig (Cam 1). Cytunodd y Cyngor Llawn hefyd ar gais y Grŵp i barhau â'i waith am 12 mis arall gyda'r bwriad o ddyfeisio dulliau o leihau'r defnydd o blastigau mewn dau faes penodol, sef arlwyyo mewn ysgolion a chaffael (Cam 2).

O fewn ychydig wythnosau i'r penderfyniad uchod gael ei wneud fe darodd pandemig COVID-19 ac aeth y wlad i gyfnod clo.

Amlinellodd yr adroddiad yr argymhellion arfaethedig yn dilyn cyfarfod diweddar Grŵp Tasg a Gorffen Defnyddio Plastig yr Aelodau lle cydnabu'r grŵp gyflawni Cam 1 o ran lleihau'r defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig ac ystyried y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r dasg yr oedd wedi'i chael, ond nad oedd yn gallu ei ddatblygu o ran Cam 2 (Arlwyo mewn Ysgolion a Chaffael) oherwydd y pandemig.

Awgrymodd swyddogion a oedd yn ymwneud â'r Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol fod argymhelliad (ii) yn cynnwys y geiriau canlynol a amlygwyd mewn print bras 'Cyfleoedd i leihau'r defnydd o blastigau mewn arlwyo ysgolion a chaffael **er mwyn lleihau allyriadau carbon**, ynghyd ag unrhyw waith yn y dyfodol ar osgoi a lleihau plastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys ei Fodelau Cyflawni Amgen( ADMs) e.e. dylid cydlynu Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL) o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig.

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen o'r farn bod y cynnig i gydlynu'r gwaith o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig yn dangos ymagwedd gynaliadwy tuag at yr amgylchedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn gyffredinol at y nodau llesiant.

Yn ystod trafodaethau, awgrymwyd a chytunwyd y dylid cynnwys argymhelliad ychwanegol i'w gymeradwyo fel a ganlyn:

"gofyn i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (SCVCG) benderfynu ar y fforwm mwyaf effeithiol ar gyfer monitro'r broses o weithredu a chyflawni lleihau'r defnydd o blastigau o fewn Cyngor Sir Ddinbych a Strategaeth Ecolegol a Newid Hinsawdd ehangach y Cyngor".

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Scott y dylid cymeradwyo'r tri argymhelliad a luniwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen ac a amlinellir yn yr adroddiad, ynghyd â'r pedwerydd argymhelliad a gyflwynwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod. Eiliodd y Cynghorydd Hugh Irving gynnig y Cynghorydd Scott.

Cymerwyd pleidlais ffurfiol ar y pedwar argymhelliad. Pleidleisiodd holl aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol o blaid yr argymhellion, ni nododd unrhyw aelod o'r Pwyllgor a oedd yn bresennol eu bod am bleidleisio yn erbyn unrhyw un o'r argymhellion nac ymatal rhag pleidleisio arnynt. Felly, yn unfrydol:

**Penderfynwyd: - ar ôl ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen ar ei waith hyd yma –**

- (i) o ystyried yr amgylchiadau presennol oherwydd y pandemig byd-eang COVID-19, na ddylai Cam 2 gwaith y Grŵp fynd rhagddo a bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei ddiddymu;**
- (ii) bod cyfleoedd i leihau'r defnydd o blastigau mewn arlwyo ysgolion a chaffael, ynghyd ag unrhyw waith yn y dyfodol ar osgoi a lleihau plastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys ei Fodelau**

***Cyflawni Amgen (ADMs) fel Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL) yn cael ei gydlynu o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig;***

- (iii) ar ôl cytuno ar yr argymhellion uchod, eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo; a***
- (iv) gofynnir i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (SCVCG) benderfynu ar y fforwm mwyaf effeithiol ar gyfer monitro'r broses o weithredu a chyflawni lleihau'r defnydd o blastigau o fewn Cyngor Sir Ddinbych a Strategaeth Ecolegol a Newid Hinsawdd ehangach y Cyngor.***

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 10:05 A.M.**